WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1459A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, gan gynnwys a15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Philip Jones ac Andrew Doughton.

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, er bod gwahaniaethau rhwng blaenoriaethau rhanddeiliaid yn dal i fod.


Adroddiad Cryno

Cefndir 5

Ffocws y gwaith 5

Prif ganfyddiadau 6

Cyfleoedd ar gyfer gwella 7

Adroddiad Manwl

**Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn gwneud pethau'n wahanol, ac mae angen cynnal hyn i gyflawni'r newid y mae am ei weld 9

**Rhan 2 – Archwilio'r gwaith mewn perthynas â 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach'**

Mae enghreifftiau da o'r modd y mae'r pum ffordd o weithio'n cael eu cymhwyso, er bod gwahaniaethau rhwng blaenoriaethau rhanddeiliaid a heriau cyllido hirdymor yn dal i fodoli 12

**Hirdymor:** Mae ffocws clir ar anghenion byrdymor a hirdymor, ond nid yw'r model cyllido presennol yn seiliedig ar ddull hirdymor 12

**Atal:** Ffyrdd iach o fyw – mae pwysau iach yn seiliedig ar atal a bydd angen i glystyrau gael eu cynorthwyo'n llawn i roi'r dull hwn ar waith 13

**Integreiddio:** Mae'r dull Labordai Byw wedi adnabod camau cyffredin posibl i helpu'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid i fynd i'r afael â gordewdra, er nad yw'r dull cyffredinol o fynd ar drywydd integreiddio'n systematig eto 14

**Cydweithio:** Er gwaethaf cydweithio effeithiol, mae tensiynau wedi codi pan nad yw blaenoriaethau sefydliadol wedi'u halinio â'i gilydd 14

**Cynnwys:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl wrth fynd i'r afael â gordewdra ac nad yw'r GIG yn gallu gwneud hynny ar ei ben ei hun 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Y Cam: 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach' 17

Atodiad 2 – Y Pum Ffordd o Weithio 19

Atodiad 3 – Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd 21

# Adroddiad Cryno

## Cefndir

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad rhagarweiniol, 'Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid y ffordd y maent yn gweithio.

5 Yn ystod 2018 a 2019 mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn 2020. Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau fe wnaethom ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid a gwneud gwaith peilot yn ystod 2017-18. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Roedd y gwaith rhagarweiniol a wnaed gennym yn 2017 yn cynnwys ystyried sut yr oedd cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant. Prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Fe gynhaliom ni ein hadolygiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2019.

## Ffocws y gwaith

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn:

- cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio er mwyn gwneud pethau'n wahanol;
- gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn trefniadau a phrosesau craidd; ac yn

- cynnwys a gweithio gyda dinasyddion a rhanddeiliaid i gyflawni ei ddyletswydd llesiant.

9 Fe gynhalion ni adolygiad lefel-uchel o'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau corfforaethol ers ein gwaith sylfaenol yn 2017, i oleuo sylwebaeth blwyddyn un yr Archwilydd Cyffredinol yn 2018. Fe wnaethom hefyd archwilio i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio trwy gam sy'n cael ei gymryd i gyflawni amcan llesiant. Yn benodol, fe wnaethom archwilio 'Ffyrdd Iach o Fyw – Pwysau Iach', menter i gynorthwyo pobl i wneud y dewisiadau cywir i wella'u hiechyd (a ddisgrifir yn Atodiad 1).

10 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion'[1]. Mae Atodiad 2 yn nodi dangosyddion cadarnhaol ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'n harchwiliad.

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio' a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru

| **Y Pum Ffordd o Weithio** |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

11 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau ynglŷn â dull corfforaethol y Bwrdd Iechyd o wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu cymhwyso trwy ei waith ar 'Ffyrdd Iach o Fyw – pwysau iach' (y cam).

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

## Prif ganfyddiadau

12 Canfu ein harchwiliad fod y **Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn gwneud pethau'n wahanol, ac mae angen cynnal hyn i gyflawni'r newid y mae am ei weld.**

13 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn gwneud pethau'n wahanol, ac mae angen cynnal hyn i gyflawni'r newid y mae am ei weld; and
- mae enghreifftiau da o'r modd y mae'r pum ffordd o weithio'n cael eu cymhwyso, er bod gwahaniaethau rhwng blaenoriaethau rhanddeiliaid a heriau cyllido hirdymor yn dal i fodoli.

14 Trafodir ein canfyddiadau mewn manylder yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

## Cyfleoedd ar gyfer gwella

15 Gan bod prif ddarpariaeth y Ddeddf wedi dod i rym yn 2016, mae'n anorfod y bydd ar gyrff cyhoeddus angen amser i roi'r newid hwnnw ar waith yn llawn. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod pontio a bod yr holl gyrff cyhoeddus ar lwybr dysgu.

16 Fe gyflwynon ni ein canfyddiadau mewn gweithdy o gynrychiolwyr allweddol sy'n rhan o ymgorffori'r model cymdeithasol o ofal yn natblygiad canolfannau iechyd a llesiant a hybiau llesiant' ym mis Gorffennaf 2019. Yn y gweithdy hwn fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried ein canfyddiadau, adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella mewn perthynas â'r cam ac fe ddechreuodd ystyried ymateb manylach.

17 Mae Arddangosyn 2 yn nodi cyfleoedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella (I), sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i barhau i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

Arddangosyn 2: cyfleoedd ar gyfer gwella.

| Cyfleoedd ar gyfer gwella |
|---|
| **Hirdymor** |
| I1 Archwilio cyfleoedd i newid i fodel cyllido hirdymor i helpu i wneud yn siŵr bod modelau gwasanaeth newydd yn cael eu rhoi ar waith. |
| **Atal** |
| I2 Parhau i gefnogi clystyrau gofal sylfaenol fel eu bod yn gallu arwain a llywio nodau o ran gwella iechyd y boblogaeth, llesiant ac atal. |
| I3 Parhau i fonitro ac adolygu mesurau deilliannau ar gyfer y presennol a'r dyfodol sy'n ymwneud â'r rhaglen 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach' i sicrhau effeithiolrwydd parhaus wrth i'r rhaglen ddatblygu. |
| **Integreiddio** |

| Cyfleoedd ar gyfer gwella |
| --- |
| I4 Mynd ati mewn ffordd systematig i adnabod ffyrdd y gall gwahanol randdeiliaid yn 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach' alinio ac integreiddio'u priod waith. |
| **Cydweithio** |
| I5 Diffinio effaith pwysau afiach mewn ystyr ehangach i randdeiliaid fel eu bod yn ymwybodol o'r effaith bosibl yn y dyfodol ar y galw am eu gwasanaethau. |

18 Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod fel Atodiad 3 unwaith y caiff ei ddatblygu ac y cytunir arno. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl cael ei ystyried gan y Bwrdd neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

# Adroddiad Manwl

## Rhan 1 – Trefniadau corfforaethol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy er mwyn gwneud pethau'n wahanol, ac mae angen cynnal hyn i gyflawni'r newid y mae am ei weld

19 Cyn archwilio gwaith mewn perthynas â 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach' roedd arnom eisiau deall sut y mae'r trefniadau corfforaethol yn rhoi cymorth i gyflawni'r gwaith hwnnw.

20 Cafodd Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018. Fe'i datblygwyd i gael ei ddarllen ochr yn ochr ag adroddiadau cynnydd eraill ar gyfer y Bwrdd, gan gynnwys y Strategaeth Byw'n Iachach, Cadw'n Iach; Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2017-18; y Datganiad Ansawdd Blynyddol; a'r cynlluniau partneriaeth a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bwriad y Bwrdd yw y bydd yr Adroddiadau Cynnydd Blynyddol yn ategu'r dogfennau eraill hyn, i helpu i enghreifftio cynnydd o ran alinio amcanion a chysondeb cyffredinol y dull.

21 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd olwg wedi'i diweddaru ar y cynnydd tuag at ei amcanion llesiant pan gyflwynodd offeryn hunanfyfyrio i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gynnar yn 2019. Mae'n rhoi enghreifftiau cadarnhaol o gynnydd ac yn cydnabod meysydd lle mae rhagor i'w wneud (gweler yr enghreifftiau yn Arddangosyn 3).

22 Yn arbennig roedd arnom eisiau deall a yw'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio trwy:

- wneud pethau'n wahanol i gyflawni newid;
- datblygu trefniadau a phrosesau craidd; a
- chynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid.

23 Nodir ein canfyddiadau yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio

| Gwneud pethau'n wahanol i gyflawni newid |
|---|
| **Roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu enghreifftiau sy'n dangos ei fod yn gwneud cynnydd tuag at gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ond mae'n cydnabod bod angen cynnal y cynnydd hwn i gyflawni'r newid y mae am ei weld** |
| • Rhoddir sylw i agenda Cenedlaethau'r Dyfodol gan gadeirydd y Bwrdd Iechyd ac mae'r tîm gweithredol yn helpu i wreiddio'r dull. Disgrifiodd uwch aelodau o staff sut y mae'r pum ffordd o weithio'n dod yn rhan reolaidd o waith ar y lefel gorfforaethol. Roedd papurau a gafodd y |

Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn darparu enghreifftiau o achosion lle mae hyn wedi digwydd.

- Mae fframwaith deilliannau Iechyd y Cyhoedd yn canolbwyntio, ymhlith pethau eraill, ar atal a'r hirdymor. Mae cyfarwyddwyr yn gweithio gyda staff mewn timau ledled ardal y Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru i atgyfnerthu'r ffocws hwn. Gwelsom adlewyrchiad o hyn yn Adroddiad Cynaliadwyedd y Bwrdd Iechyd (2019) a'r Adroddiad Labordy Byw interim (Chwefror 2019).
- Dywedodd cyfweleion wrthym fod newidiadau i'r dull mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Bwrdd Iechyd ac ar lefel genedlaethol yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol ar ba mor dda y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio'n cael eu cymhwyso. Roeddent yn ystyried bod cymeradwyo dyraniadau o'r Gronfa Drawsnewid yn gam cadarnhaol yn hyn o beth.
- Mae rhai amcanion sefydliadol yn symud yn nes at ei gilydd ar draws sefydliadau partner, er bod gwahaniaeth o hyd ac fe gydnabuwyd fod rhagor i'w wneud. Trafodir y mater ymhellach yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn.

## Datblygu trefniadau a phrosesau craidd

**Ceir enghreifftiau pendant o sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei drefniadau a'i brosesau craidd i ategu'r egwyddor datblygu cynaliadwy**

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu gofyniad bod y pum ffordd o weithio'n cael eu hystyried fel rhan o'r canlynol:
  - amodau gorchwyl pwyllgorau ffurfiol,
  - papurau a gyflwynir i bwyllgorau; a
  - gweithdrefnau a pholisïau.
- Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod trefniadau partneriaeth yn canolbwyntio'n gynyddol ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy.
- Rhoddwyd cyfrif am y dull Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn diwygiad llawn o adroddiad blynyddol y Bwrdd Iechyd a'i adroddiad blynyddol ar ei berfformiad.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwreiddio datblygu cynaliadwy ymhellach fel egwyddor galluogol yn ei strategaeth glinigol, 'Byw'n Iachach, Cadw'n Iach'. Fe wnaed hyn yn eglur yn ystod y cynnydd a wnaed gyda'r cynnydd, fel a nodir n Rhan 2 o'r adroddiad hwn.
- Mae'r angen i fuddsoddi i arbed, fel ymagwedd at gynllunio, yn amlwg yn cael ei gefnogi gan y tîm gweithredol. Mae hyn wedi arwain at gynnwys elfennau ataliol yn y Cynllun Orthopedig a ffocws ar waith ataliol yn nes at y claf fel rhan o ddatblygu gwasanaethau strôc.

## Cynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen am ddulliau arloesol o gynnwys a gweithio gyda dinasyddion a rhanddeiliaid mewn perthynas â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a cheir enghreifftiau o sut y mae hyn yn datblygu**

- Dywedodd cyfweleion fod disgwyl i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei hystyried fel rhan o sgyrsiau gyda dinasyddion a rhanddeiliaid. Mae casgliad eang o 'asedau' llesiant wedi cael eu cynnwys fel rhan o weithgareddau a sgyrsiau cynnwys.
- Mae rhaglen ymgysylltu helaeth yn mynd rhagddi, gyda chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn mynd allan i grwpiau presennol a mannau cyfarfod i ymgysylltu ynghylch datblygiadau i wasanaethau. Mae'r tîm ymgysylltu wedi cael hyfforddiant ar arfer gorau, ar y cyd â staff yn y tîm cynllunio a strategaeth. Mae'r tîm ymgysylltu wedi datblygu rhwydweithiau ymarferwyr ymgysylltu y mae unrhyw un sy'n rhan o ymgysylltu'n cael ei wahodd iddynt.
- Mae'r pedwar BGC ar draws ardal y Bwrdd Iechyd yn datblygu eu rôl yn hyn o beth. Mae'r amgylchedd ar agenda pob un ohonynt, ac maent yn dechrau cydweithio'n agosach ar y

materion hyn. Ceir rhai aelodau cyffredin ar draws y BPRh a'r BGCau, sydd o gymorth gyda chyfathrebu. Ceir barn bod angen i hyn fynd ymhellach.

- O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r sgwrs "yr hyn sydd o bwys" gydag unigolion, gan alluogi mwy o gydweithio ar ddatblygu gwasanaethau. Hefyd, mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn gweithio i gefnogi a galluogi'r broses o hyrwyddo gwerth cymdeithasol, yn unol â dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae datblygiad gwasanaethau strôc yn cael ei gyflawni trwy gydgynhyrchu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid eraill.

# Rhan 2 – Archwilio’r gwaith mewn perthynas â ‘Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach’

## Mae enghreifftiau da o’r modd y mae’r pum ffordd o weithio’n cael eu cymhwyso, er bod gwahaniaethau rhwng blaenoriaethau rhanddeiliaid a heriau cyllido hirdymor yn dal i fodoli

24 Fe wnaethom archwilio gwaith y Bwrdd Iechyd ar y cam ‘Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach’ i ddangos sut y mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau rhanddeiliaid lleol eraill i gynorthwyo pobl i wneud dewisiadau gwybodus mewn perthynas â’u hiechyd eu hunain, ac i hybu iechyd gwell ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol. Nod y gwaith yw lleihau anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig trwy ganolbwyntio’r cymorth ar gymunedau y mae arnynt ei angen fwyaf. Un o flaenoriaethau’r gwaith mewn partneriaeth yw sefydlu gwasanaethau ffordd o fyw i gefnogi iechyd a llesiant, y mae elfen allweddol ohono’n ymwneud â helpu pobl i gyflawni pwysau iach a chadw’n egnïol. Ceir rhagor o wybodaeth am y cam yn Atodiad 1.

## **Hirdymor:** Mae ffocws clir ar anghenion byrdymor a hirdymor, ond nid yw’r model cyllido presennol yn seiliedig ar ddull hirdymor

25 Fe chwilion ni am dystiolaeth o’r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a’r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

26 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae Tîm Iechyd y Cyhoedd a’r Tîm Gwella ac Anghydraddoldebau Iechyd yn bwriadu cyflawni deilliannau hirdymor mewn perthynas â phwysau iach trwy raglen waith; er enghraifft, gordewdra mamau, Ysgol Iach, Beth Am Symud Gogledd Cymru; ac
- mae datrysiadau wedi cynnwys ymgysylltu â phobl i wneud newidiadau i ymddygiad unigolion a chymunedau, sydd wedi’u bwriadu i drosi’n welliannau parhaus i lesiant.

27 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- mae cyllid byrdymor ar gyfer prosiectau peilot yn aml yn golygu bod diffyg sicrwydd ynghylch y potensial i brif ffrydio'r gwaith; er enghraifft, mae model cyllido'r trydydd sector yn amrywiol (e.e. dros 1, 2 neu 3 blynedd);
- cydnabu'r Bwrdd Iechyd fod cyfleoedd i gael rhagor o werth o'r trydydd sector (20,000 o sefydliadau'r trydydd sector yng Ngogledd Cymru), efallai trwy sicrhau eu cyfraniad at drafodaethau ynghylch cyllid cyfunol;
- ychydig o sefydliadau'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar 'bwysau iach' ond mae hyn yn esblygu gyda mentrau presgripsiynu cymdeithasol a bwydo ar y fron 3ydd sector Cyswllt Conwy yn cael eu rhoi fel enghreifftiau; ac
- mae angen llywio cynllunio mwy hirdymor ar y cyd trwy gymorth gan yr holl randdeiliaid perthnasol ar lefelau rhanbarthol ac isranbarthol. Mae clystyrau'n darparu cyfleoedd i weithio ar draws sectorau.

## **Atal:** Ffyrdd iach o fyw – mae pwysau iach yn seiliedig ar atal a bydd angen i glystyrau gael eu cynorthwyo'n llawn i roi'r dull hwn ar waith

28 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae staff corfforaethol a phrosiectau'n deall achosion sylfaenol gordewdra a'r perthnasoedd rhyngddynt, ac mae eu gwaith yn gwbl seiliedig ar dystiolaeth;
- mae'r rhaglen ffordd o fyw'n gwella deilliannau ar gyfer cleifion cyn llawdriniaethau gyda thystiolaeth o ostyngiadau mewn llawdriniaethau o ganlyniad i ymddygiadau iachach;
- cydnabyddiaeth i bwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran datblygu mesurau ataliol; a
- rôl y Gronfa Drawsnewid o ran galluogi'r dull ataliol hwn.

30 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- mae gan glystyrau rôl allweddol o ran cefnogi gwaith ataliol, er nad ydynt eto'n cael eu cynorthwyo'n llawn i gyflawni'r dull hwn; a
- bydd monitro ac adolygu effeithiolrwydd deilliannau'n hanfodol wrth i'r rhaglen waith ddatblygu.

## **Integreiddio:** Mae'r dull Labordai Byw wedi adnabod camau cyffredin posibl i helpu'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid i fynd i'r afael â gordewdra, er nad yw'r dull cyffredinol o fynd ar drywydd integreiddio'n systematig eto

31 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

32 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae rhanddeiliaid lleol yn dysgu gyda'i gilydd ac yn meddwl sut y gellir integreiddio gwasanaethau; a
- bu'r Bwrdd Iechyd, ei bartneriaid a'r cyhoedd yn gweithio ar y dull 'Labordai Byw'[2] ac maent wedi cyhoeddi adroddiad interim sy'n nodi camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â gordewdra a'r agenda llesiant.

33 Canfuom y pwynt dysgu canlynol:

- nid yw integreiddio'n cael ei ystyried yn systematig gan randdeiliaid eto, ac mae wedi bod yn oportiwnistaidd i ryw raddau yn hytrach na chael ei gynllunio.

## **Cydweithio:** Er gwaethaf cydweithio effeithiol, mae tensiynau wedi codi pan nad yw blaenoriaethau sefydliadol wedi'u halinio â'i gilydd

34 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

35 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae Beth am Symud Gogledd Cymru yn sefydlu agendau gweithgarwch corfforol ar y cyd gyda blaenoriaethau sefydliadol unigol;

[2] Labordai Byw yw un o'r ffyrdd y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhoi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus.

- mae rhanddeiliaid wedi dechrau cydnabod bod ganddynt ran i'w chwarae yn yr agenda 'pwysau iach', er enghraifft trwy chwaraeon a gweithgareddau hamdden; ac
- mae rhanddeiliaid yn arbennig o barod i gydweithio lle maent yn gallu gweld yn glir bod rôl iddynt hwy eu hunain.

36 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- er bod cydweithio wedi cynyddu, nid yw eto wedi gwreiddio ar bob lefel o weithio;
- mae'r Grŵp Trawsnewid Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â gordewdra 'Lefel 1' gyda dull aml-bartner. Fodd bynnag, mae angen ystyried ai 'pwysau iach' yw'r ffordd orau o fframio'r gwaith yn y maes hwn. Er enghraifft, gallai'r gwaith ganolbwyntio ar effaith economaidd, pensiynau, effaith amgylcheddol a.y.b.; ac
- mae ffocws traddodiadol y Bwrdd Iechyd wedi bod ar ymyriadau acíwt a chlinigol unwaith y mae gordewdra wedi dod yn broblem. Mae angen o hyd iddo ddefnyddio'i adnoddau i ymdrin â'r ail o'r rhain ac mae hyn yn creu rhywfaint o densiwn wrth geisio cydweithio gyda rhanddeiliaid eraill mewn perthynas ag atal.

## **Cynnwys:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl wrth fynd i'r afael â gordewdra ac nad yw'r GIG yn gallu gwneud hynny ar ei ben ei hun

37 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

38 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae cynnwys defnyddwyr gwasanaethau blaenorol yn y gwaith o gyflawni'r rhaglen wedi cael adborth cadarnhaol iawn, gan eu bod yn gallu defnyddio'u profiad hwy eu hunain i wneud y dull yn un y mae defnyddwyr gwasanaethau eraill yn gallu uniaethu'n fwy ag ef;
- Mae Labordy Byw wedi canfod 'poethfan' yn Llanrwst. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu partneriaeth leol o sefydliadau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol a phobl leol i greu a lansio Llanrwst fel "Pentref a Chymuned Iach" gydag ymgyrch i newid y naratif o ran byw'n iach; ac

- mae'r Bwrdd Iechyd yn targedu trawstoriad o'r gymuned i hyfforddi grwpiau i weithredu fel hyrwyddwyr ac i ledaenu a hyrwyddo gwybodaeth am yr agenda 'Byw'n Iach – pwysau iach'.

39 Canfuom y pwyntiau dysgu canlynol:

- her taro cydbwysedd rhwng rhaglenni seiliedig ar y boblogaeth ar raddfa fawr gyda'r rhai sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- yn ogystal â gwneud eu gwaith, gall aelodau o staff gael effaith bersonol eang ar eu cymunedau felly gall eu cynnwys mewn mentrau fod yn ddull hyrwyddo pwerus iawn; ac
- mae cyfle i hyrwyddo dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ymhellach ymhlith staff meddygol.

# Atodiad 1

## Y Cam

### Gwybodaeth a ddarparwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cam: Gwaith mewn perthynas â 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach'

**Eglurhad o'r cam**

Rydym yn dymuno gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo pobl i wneud y dewisiadau cywir ac i hybu iechyd y boblogaeth. Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn rhan bwysig o'r cynllun hwn. Mae arnom eisiau cefnogi'r cymunedau y mae arnynt ei angen fwyaf.

Un o'n blaenoriaethau yw sefydlu gwasanaethau ffordd o fyw i gynorthwyo pobl Gogledd Cymru i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles. O fewn hyn, mae cynorthwyo pobl i gyrraedd pwysau iach a chadw'n egnïol yn elfen allweddol. Mae'r Pum Ffordd o Weithio[3] yn ddull arall ar gyfer fframio pwysigrwydd y gwaith hwn

**Pam fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud hyn?**

Yn ein strategaeth hirdymor, Byw'n Iachach, Cadw'n Iach, fe wnaethom adnabod yr angen i ganolbwyntio ar helpu pobl i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Fe edrychon ni ar y dystiolaeth yn Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Dywedodd pobl wrthym yn y trafodaethau a gawsom am yr hyn sy'n bwysig y dylem ganolbwyntio'n fwy ar gynorthwyo pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant hwy eu hunain.

**Beth mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i gyflawni'r cam hwn?**

Fe sefydlom ni Grŵp Trawsnewid Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn gweithio i adnabod ac arwain rhaglen o waith i gefnogi pwysau iach. Mae rhai enghreifftiau fel a ganlyn:

| Maes | Enghreifftiau o Waith |
|---|---|
| Bod yn egnïol | Beth Am Symud Gogledd Cymru, gwaith mewn partneriaeth gyda Chwaraeon Gogledd Cymru<br><br>Gwaith gyda Chwaraeon Anabledd Cymru |
| Iechyd gwyrdd | Edrych ar y cysylltiadau rhwng mannau gwyrdd ac agored, ac iechyd a lles |

[3] Set o negeseuon seiliedig ar dystiolaeth yw'r Pum Ffordd o Weithio ac maent wedi'u bwriadu i wella iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth gyfan. Fe'u datblygwyd gan y Sefydliad Economeg Newydd o dystiolaeth a gafwyd yn y prosiect Foresight ar Gyfalaf a Llesiant Meddyliol (2008).

| | |
|---|---|
| Presgripsiynu cymdeithasol | Fe ddatblygodd rhwydwaith Gwnaed yng Ngogledd Cymru ddull seiliedig ar asedau o fynd ar drywydd llesiant |
| Diet iach a phwysau iach | Mentrau Ysgolion Iach, menter “Labordy Byw” yn cefnogi plant a phobl ifanc, gwasanaethau rheoli pwysau, y Rhaglen Ffordd o Fyw sy’n cefnogi’r llwybr orthopedig<br><br>Hyfforddi bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i gynorthwyo teuluoedd i ddilyn ffyrdd iach o fyw<br><br>Lansio’r rhaglen bwydo babanod a’r rhaglen mesur plant |
| Cefnogi ein staff | Mentrau iechyd a llesiant staff, ac ennill Gwobr Aur a Phlatinwm Cymru Iach ar Waith |

# Atodiad 2

## Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau sy'n ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid ydym yn bwriadu i'r dangosyddion gael eu defnyddio fel 'rhestr wirio'. Rydym wedi'u defnyddio fel 'dinasyddion' i'n helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol ?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i gyfleoedd ar gyfer gwella

Bydd ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn cael ei fewnosod yma. Bydd yr atodiad hwn yn rhan o'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith y bydd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd neu un o bwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

40 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ystyried ein canfyddiadau yn y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019 ac fe gytunodd ar nifer o gyfleoedd i wella o ran gwaith mewn perthynas â 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach'. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u hadnabod mewn ymateb.

| Cyfleoedd ar gyfer gwella | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
|---|---|
| **Hirdymor** | |
| I1 Archwilio cyfleoedd i newid i fodel cyllido hirdymor i helpu i wneud yn siŵr bod modelau gwasanaeth newydd yn cael eu rhoi ar waith. | |
| **Atal** | |
| I2 Parhau i gefnogi clystyrau gofal sylfaenol fel eu bod yn gallu arwain a llywio nodau o ran gwella iechyd y boblogaeth, llesiant ac atal. | |
| I3 Parhau i fonitro ac adolygu mesurau deilliannau ar gyfer y presennol a'r dyfodol sy'n ymwneud â'r rhaglen 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach' i sicrhau effeithiolrwydd parhaus wrth i'r rhaglen ddatblygu. | |
| **Integreiddio** | |
| I4 Mynd ati mewn ffordd systematig i adnabod ffyrdd y gall gwahanol randdeiliaid yn 'Ffyrdd iach o fyw – pwysau iach' alinio ac integreiddio'u priod waith. | |
| **Cydweithio** | |
| I5 Diffinio effaith pwysau afiach mewn ystyr ehangach i randdeiliaid fel eu bod yn ymwybodol o'r effaith bosibl yn y dyfodol ar y galw am eu gwasanaethau. | |

41 Byddwn yn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau, trwy ein rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru